# PECYN CYMORTH DYSGU ANNIBYNNOL DAN GYFARWYDDYD: CYNNWYS A CHYFARWYDDIADAU AR GYFER EI DDEFNYDDIO

## Ar gyfer pwy mae'r pecyn?

Bwriedir y pecyn cymorth hwn ar gyfer yr holl staff academaidd a phroffesiynol sy'n addysgu ac yn cynorthwyo datblygiad myfyrwyr fel dysgwyr annibynnol.

## Beth mae'n ei gynnwys?

Yn ogystal ag adnoddau ar gyfer staff, mae hefyd yn cynnwys rhai elfennau y gallai staff eu cael yn ddefnyddiol i'w rhoi i fyfyrwyr, i'w defnyddio fel y sail ar gyfer tiwtorialau, gweithdai sgiliau astudio a gweithgareddau yn y dosbarth, neu i gyfeirio myfyrwyr atynt ar gyfer hunanddatblygiad. Ceir awgrymiadau penodol ar gyfer eu defnyddio o dan bob un o eitemau'r pecyn cymorth..

### 1. Dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd: trosolwg

Cyflwyniad cryno i bwnc dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd yw hwn, yn cynnwys diffiniadau, manteision, priodoleddau, ac enghraifft o sut y gellir cynorthwyo myfyrwyr i symud yn eu blaenau o fod yn ddysgwyr gweithredol ond sy'n cael eu cyfarwyddo'n agos i fod yn ddysgwyr cwbl ymreolaethol. Mae'n cynnig gwybodaeth gefndirol i staff.

Gallai'r adran ar ddiffinio dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd (tudalen 2) fod yn ddefnyddiol i'w dangos i fyfyrwyr wrth gyflwyno'r dull iddynt.

### 2. Awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau rhwydweithio i rannu arfer da

Mae pob un o'r gyfres o ddeg taflen awgrymiadau sy'n cyfansoddi'r adnodd hwn yn trafod agwedd ar ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd, yn seiliedig ar y rheini a archwiliwyd gan Thomas et al pan wnaed gwaith ymchwil ganddynt i arfer effeithiol ym maes dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd yn 2015. Fe'u cyflwynir yn y modd hwn fel y gall y rheini sy'n cymryd rhan mewn digwyddiad rhwydweithio nodi enghreifftiau o sut y maent eisoes yn rhoi sylw i bob un o'r agweddau hyn.

Bydd y taflenni wedi'u cwblhau yn gweithredu fel dull rhannu arferion da yn ystod ac ar ôl y digwyddiad. Byddai defnyddio'r taflenni yn y modd hwn yn baratoad a gweithgaredd casglu syniadau rhagorol cyn cynllunio gweithredol (gweler isod), yn enwedig pe bai'n cael ei wneud fel digwyddiad aml-raglen neu aml-Ysgol cyn i dimau rhaglen gyfarfod ar wahân i gynllunio camau gweithredu mwy lleol.

Rhoddir awgrymiadau mwy manwl ar sut i gynnal y digwyddiad rhwydweithio ar ddechrau'r gyfres o daflenni.

### 3. Dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd: agenda ar gyfer cynllunio gweithredol

Byddai'r dull hwn yn briodol i'w ddefnyddio yn rhan o ddiwrnod cwrdd i ffwrdd addysgu a dysgu, neu mewn cyfarfod neu weithdy cynllunio gweithredol staff

estynedig (90 munud i 2 awr), neu yn rhan o'r adolygiad cyfnodol neu'r broses o ddylunio cwrs newydd.

Mae'r agenda cynllunio gweithredol anodedig wedi ei drefnu yn ôl yr un deg agwedd ar ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd â'r awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau rhwydweithio (gweler eitem 2 uchod), ond maent i gyd wedi eu cyflwyno mewn un tabl y tro hwn. Ategir pob agwedd gan esboniad cryno o pam mae'n bwysig ('rhesymeg') gyda dolenni neu gyfeiriadau at adnoddau a gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr a allai fod yn ddefnyddiol i ddatblygu'r agwedd hon ar eich cwricwlwm. Ceir lle i chi nodi sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â phob un, neu rai, o'r agweddau yn ystod y misoedd nesaf.

### 4. Canllawiau ar gymell, annog a magu hyder myfyrwyr

Fel y byddwch yn gweld pan fyddwch yn darllen yr adran ar heriau dysgu annibynnol yn 'Dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd: trosolwg' (tudalen 1), mae angen i ni weithio'n rhagweithiol i baratoi myfyrwyr i ddysgu'n annibynnol, yn enwedig yn ystod camau cynnar eu cwrs.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig deuddeng syniad ar gyfer ffyrdd ymarferol y gallwch wneud hyn, pa un a yw'n wyneb yn wyneb neu ar-lein, yn y dosbarth neu'r tu allan, gan ddefnyddio addysgeg ddiwylliannol gynhwysol, creu 'mannau diogel' ar gyfer 'dysgu i ddysgu', sefydlu rhwydweithiau cymorth cymheiriaid, a mwy.

### 5. Dulliau i fyfyrwyr ddatblygu agweddau ar ddysgu annibynnol

Cyfres o ddolenni â thema i weithgareddau a dulliau parod i'w defnyddio i fyfyrwyr. Mae rhai o'r rhain yn addas i chi eu defnyddio mewn dosbarthiadau, tiwtorialau neu weithdai gyda myfyrwyr yn gweithio yn unigol neu mewn grwpiau; mae eraill wedi eu dylunio fel gweithgareddau hunan-fynediad i'w cwblhau yn annibynnol.

### 6. Rhagor o adnoddau i staff

Dolenni i gyfeiriadau ac adnoddau i chi wneud gwaith dilynol ar y theori a'r gwaith ymchwil sy'n sail i'r pecyn cymorth hwn, yn ogystal ag astudiaethau achos arfer da o amrywiaeth o ddisgyblaethau.

DIL taflen wybodaeth asesu cynhwysol

Taflen gweithdy dysgu annibynnol - Mick Healey

Mick Healey independent learning workshop handout

**Pecyn Cymorth Dysgu Annibynnol Dan Gyfarwyddyd**

Prifysgol Abertawe, 2018, gyda chyllid grant gan Advance AU advance-he.ac.uk, a datblygu gan Corony Edwards Consulting coronyedwards.co.uk. Ar gael o dan: Creative Commons Attribution-Non-commercial-ShareAlike 4.0 International Licence creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0 /